

YSGOL SEFYDLEDIG CAERGEILIOG FOUNDATION SCHOOL



Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)

(Cyn mabwysiadu y polisi bydd angen i ysgolion unigol addasu'r polisi er mwyn ei berthnasu i ymrwymiad yr ysgol ar gyfer statws gorfodol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb)

Enw'r aelod staff gyda chyfrifoldeb am polisi ACRh:	E OWENS
Enw'r arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yr ysgol:	E OWENS
Enw'r Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb am ACRh:	R BROWN
Dyddiad mabwysiadu y polisi ACRh gan y Corff Llywodraethol:	HAF 2021
Dyddiad adolygiad nesaf:	HAF 2022

Addysg cydberthynas a rhywioldeb (Datganiad o Ganllawiau Cwricwlwm i Gymru 2020)

'Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn chwarae rôl allweddol wrth wella lles a diogelwch dysgwyr a bydd yn bwnc orfodol o fewn Cwricwlwm Cymru 2022:

Mae gan ysgolion rôl, bwysig i'w chwarae o ran atal ac amddiffyn, trafod ac ymateb i gwestiynau ac anghenion dysgwyr. Mae ganddyn nhw y potensial i greu amgylcheddau diogel sy'n grymuso dysgwyr, sy'n adeiladu ar ddysgu a phrofiadau ffurfiol ac anffurfiol dysgwyr, a hynny all-lein ac ar-lein. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i adlewyrchu eu safbwyntiau a'u teimladau am ystod o faterion sy'n ymwneud ag addysg cydberthnasau a rhywioldeb, a'u mynegi.

Nod addysg cydberthynas a rhywioldeb yw grymuso dysgwyr yn raddol i feithrin yr wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd egwyddorol sydd eu hangen er mwyn deall y ffordd y mae cydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb yn llywio eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. Mae'n ceisio cefnogi hawliau dysgwyr i fwynhau cydberthnasau cyfartal, diogel, iach sy'n gwireddu eu dyheadau drwy gydol eu hoes. Mae hyn yn cynnwys y gallu i gydnabod, deall a chodi'u llais yn erbyn gwahaniaethu a thrais, ac i wybod sut a ble i geisio cymorth, cyngor a gwybodaeth ffeithiol ynghylch ystod o faterion sy'n ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Dylai addysg cydberthynas a rhywioldeb gynnwys dysgu datblygiadol briodol yn ymwneud â'r meysydd thematig canlynol:

- **Hawliau a chydaddoldeb** - Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae hawliau sy'n ymwneud â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthnasau yn cyfrannu at ryddid, tegwch, urddas, lles a diogelwch pawb.

- **Cyberthnasau** - Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o sut i ffurfio a chynnal gwahanol fathau o gyberthnasau diogel, cydsyniol ac iach sy'n giwredu eu dyheadau.
- **Rhyw, rhywedd a rhywioldeb** - Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o ryw, rhywedd a rhywioldeb. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y mae bioleg, cymdeithas a diwylliant yn llywio ein hymdeimlad o'n hunan a'n perthnasau ag eraill.
- **Cyrff a delwedd gorfforol** - Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o'r corff dynol a'r ffordd y mae'n newid dros amser, gan gynnwys y ffordd y mae pobl yn teimlo am eu cyrff, a'u galluedd a'u swyddogaethau rhywiol ac atgenedlol.
- **Iechyd a lles rhywiol** - Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o rôl gadarnhaol rhywioldeb ym mywyd dynol a meithrin ymwybyddiaeth raddol o iechyd a lles rhywiol personol.
- **Trais, diogelwch a chymorth** - Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o natur gymdeithasol, emosiynol, corfforol a chyfreithiol o drais sy'n seiliedig ar rywedd a thrais rhywiol a'i effaith, gan gynnwys trais ar-lein.'

Llywodraeth Cymru, Canllawiau Cwricwlwm i Gymru 2020

Polisi Addysg Cyberthynas a Rhywioldeb

Er mwyn cydymffurfio gyda status gorfodol Addysg Cyberthynas a Rhywioldeb o fewn Cwricwlwm i Gymru 2022, mae'r ysgol yn cynllunio ac yn datblygu rhaglen dysgu ac addysgu Addysg Cyberthynas a Rhywioldeb cynhwysfawr a chynhwysol.

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu dulliau'r ysgol ar gyfer Addysg Cyberthynas a Rhywioldeb. Mae wedi ei gymeradwyo gan yr Uwch Dîm Rheoli drwy ymgynghori gyda'r staff, llywodraethwyr, rhieni a'r dysgwyr.

Mae'r polisi ACRh yn cysylltu gyda ac yn gyson â pholisiau Cydraddoldeb, Diogelu ac Amddiffyn Plant yr ysgol.

Mae'r polisi wedi ei arwain gan reoliadau, canllawiau a chwricwlwm cyfredol Llywodraeth Cymru:

- Cwricwlwm i Gymru 2022 Maes Dysgu a Phrofiad
- Papur Gwyn Llywodaeth Cymru - Addysg Cyberthynas a Rhywioldeb Mewn Ysgolion 2019
- Deddf Cydraddoldeb 2010

Dylunio'r Cwricwlwm

Nod yr ysgol yw i ddarparu ACRh cynhwysol, cyfannol sy'n seliedig ar hawliau ac ecwiti rhywedd. Mae'r rhaglen ysgol gyfan yn ddatblygiadol addas, yn berthnasol ac yn ddeniadol gyda llwybrau cynnydd clir ar gyfer dysgu a phrofiadau. Mae wedi ei gynllunio i esblygu i gwrdd a newidiadau biolegol, cymdeithasol, diwylliannol a materion thechnolegol a gwybodaeth.

Mae cwricwlwm ACRh yr ysgol yn datblygiadol addas, yn berthnasol ac yn gyfranogol gyda llwybrau dysgu cynnyddol glir ar gyfer dysgu a phrofiad. Mae wedi ei gynllunio i esblygu i gwrdd â materion a gwybodaeth newidiadol biolegol, cymdeithasol, diwylliannol a thechnolegol. Mae rhaglen ACRh yr ysgol yn cael statws cyfartal â'r Mesitydd Dysgu a Phrofiad eraill.

Mae'r rhaglen ACRh ysgol cyfan yn gynhwysol ac wedi ei deilwro i siwtio anghenion unigol y dysgwyr. Mae'n canolbwyntio ar berthnasoedd iach ac ar werthfawrogi gwahaniaethau a chydaddoldeb.

Mae cynllunio, addysgu, arfarnu a monitro rhaglen ACRh yr ysgol yn cael ei ymgymryd gan athrawon a'r arweinydd ACRh. Mae'r dysgwyr yn cael cyfleoedd i roi eu sylwadau ar y polisi, gwersi ac ymarfer ACRh yn yr ysgol. Mae eu barn yn cyfrannu tuag at gynllunio'r cwricwlwm ac arfarnu pa mor effeithiol ydyw.

Weithiau bydd y rhaglen yn cael ei gefnogi gan asiantaethau allanol e.e. Bydwraig ar gyfer trafod beichiogi a'r geni, Stonewall i gefnogi ar faterion hunaniaeth rhywedd. Bydd staff dysgu yn bresennol drwy gydol y gwersi yn ystod unrhyw gyflwyniadau gan asiantaethau allanol.

Ethos ac amgylchedd yr ysgol

Mae'r ysgol yn sicrhau bod ACRh wedi ei wreiddio i fframwaith gwerthoedd a moesol yr ysgol e.e. trwy ddangos parch tuag at yr holl ddysgwyr, staff a'r gymuned ehangach, gan gynnwys amrywiaethau rhywedd, dathlu gwahaniaethau ac adeiladu perthnasoedd iach.

Dysgu ACRh

Mae'r ysgol yn sicrhau amgylchedd addysgol ddiogel ar gyfer athrawon, staff a'r dysgwyr drwy sefydlu a chytuno i gytundebau/rheolau dosbarth yr ysgol.

Bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i ofyn cwestiynau cyfrinachol/dienw drwy ddefnyddio'r blwch cwestiynau dienw. Bydd y cwestiynau yn cael eu hateb yn sensitif ac mewn modd addas i ddatblygiad y dysgwyr.

Mae'r holl adnoddau a ddefnyddir wedi eu dewis yn ôl eu priodoldeb ac yn cael eu hadolygu yn ôl eu heffeithiolrwydd yn dilyn eu defnyddio gan yr athrawon a'r arweinydd ACRh.

Datblygiad proffesiynol y staff

Mae'r ysgol yn sicrhau bod yr holl athrawon ynghyd â'r staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant ACRh addas er mwyn sicrhau bod y rhaglen ACRh ysgol gyfan yn effeithiol, ddatblygiadol addas ac yn cwrdd ag anghenion yr holl ddysgwyr.

Partneriaeth gyda rhieni/gofalwyr a'r gymuned leol.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod rhieni/gofalwyr yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen ACRh. Mae'r ysgol felly yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r hyn a gyflwynir ac yn darparu cyfleoedd i leisio barn am y polisi ac ymarfer. Mae'r polisi ACRh ar gael ar wefan yr ysgol.

Fel rhan o ddulliau ysgol gyfan ar gyfer ACRh, bydd cyfleoedd i rieni/gofalwyr weld y deunyddiau a'r adnoddau a ddefnyddir yn ystod sesiynau rhannu gwybodaeth pan yn briodol.

Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer rhieni/gofalwyr er mwyn cyflawni eu rôl fel

addysgwyr perthnasoedd, rhyw a rhywioldeb yn y cartref.

Mae ein rhaglen ACRh ysgol gyfan yn cynnwys dysgu am:

Y Cyfnod Sylfaen

1. Cyfeillgarwch - Beth yw ffrind/ffrindiau?
2. Hylendid personol.
3. Adnabod y corff - enwi rhannau allanol o'r corff gan gynnwys yr organau rhywiol
4. Diogelwch personol - gwahaniaethu rhwng cyffwrdd priodol ac amhriodol.

Blwyddyn 3 neu 4

1. Teuluoedd amrywiol.
2. Adnabod y corff - enwi rhannau allanol o'r corff gan gynnwys yr organau rhywiol – ailymweld.
3. Diogelwch personol - gwahaniaethu rhwng cyffwrdd priodol ac amhriodol – ailymweld.

Blwyddyn 5

1. Deall beth yw maint, swyddogaeth a phwysigrwydd prif organau'r corff gan gynnwys yr organau cenhedlu.
2. Glasoed - trafod y newidiadau corfforol ac emosiynol.
3. Cymryd gyfrifoldeb a hylendid personol.

Blwyddyn 6

1. Cenhedlu.
2. Beichiogrwydd.
3. Y Geni.
4. Gofalu am y babi.

Mae rhaglen waith Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ysgol gyfan ar gael isod.